WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwiliad Blynyddol ar gyfer 2015-16 – **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys**

Blwyddyn archwilio: 2015-16

Dyddiad cyflwyno: Rhagfyr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 669A2016

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn rhan o'r gwaith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu swyddogaethau unigol, nac am unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman, Jason Garcia, Andy Bruce a Leanne Malough.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Cyflwynais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu 4

Rwyf yn fodlon y bu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol 6

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi ei gwblhau ar 29 Medi 2016 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Meini prawf i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol 10

Atodiad 2 – Risgiau archwilio sylweddol 11

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio yr wyf wedi ei wneud yn gysylltiedig â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Dyfed Powys (y Prif Gwnstabl) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn gysylltiedig ag archwilio cyfrifon a threfniadau unigol y ddwy gorfforaeth i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

3 Ceir rhagor o fanylion ynglŷn ag agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynais yn ystod y flwyddyn. Mae fy nhîm wedi trafod yr adroddiadau hyn ac wedi cytuno arnynt gyda swyddogion, y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio. Roedd fy Nghynllun Archwilio 2016 yn nodi'r risgiau o archwilio'r datganiadau ariannol ar gyfer 2016, ac mae Atodiad 2 yn dangos sut yr aethpwyd i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

## Cyflwynais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu

4 Mae'r datganiadau ariannol yn fodd hanfodol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl roi cyfrif o'u dull o stiwardio'r adnoddau sydd ganddynt a'u perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Eu cyfrifoldeb hwy yw:

- sefydlu systemau rheoli mewnol i sicrhau bod trafodiadau yn rheolaidd ac yn gyfreithlon;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol; a
- pharatoi datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion perthnasol.

5 Mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau archwilio sy'n cynnwys barn ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun 'gwir a theg' o sefyllfa'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi fy marn ynglŷn â pha un a yw'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 a rheoliadau perthnasol.

6 Ar 29 Medi 2016, cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Pensiwn yr Heddlu.

7 Ar 30 Mehefin 2016, derbyniasom ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, a oedd yn unol â'r dyddiad terfyn y cytunwyd arno.

8 Canfuom fod yr wybodaeth a'r papurau gwaith a ddarparwyd i gefnogi'r cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd eu deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiad ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Nid chafwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a chynorthwyol ac ni chyfyngwyd arnom yn ein gwaith.

9 Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr adrodd canfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynwyd yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac i'r Cydbwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 20 Medi 2016. Nodir crynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl

| Gofyniad ar gyfer adrodd | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd | Nid oedd angen unrhyw addasiadau, rhoddwyd barn glir (ddiamod). |
| Camddatganiadau heb eu haddasu | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu. |
| Safbwyntiau ynglŷn ag agweddau ansoddol arferion cyfrifyddu a dulliau adrodd ariannol yr endid | Ni nodwyd unrhyw faterion. |
| Materion a drafodwyd mewn gohebiaeth â rheolwyr | Adroddwyd dau fater a drafodwyd gyda'r rheolwyr yn ystod yr archwiliad.<br>• Nodwyd nad oedd cyfrifon rheoli yn cael eu cysoni'n brydlon bob amser ac ar gyfer bob mis o'r flwyddyn. Roedd y cysoni diwedd y flwyddyn wedi ei wneud ym mhob achos er hynny.<br>• Dyfarniad y llys yn achos Milne v Adran Actwari'r Llywodraeth (GAD).<br>Gwnaethpwyd cyfanswm o £3,191,000 o daliadau o Gronfa Bensiwn yr Heddlu yn 2015/16 i setlo symiau a oedd yn codi o'r camgymeriad a wnaethpwyd gan GAD a arweiniodd at dalu cyfandaliadau gohiriedig anghywir i bensiynwyr ar sail genedlaethol.<br>O dan reolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, dosbarthwyd y taliadau uchod fel taliadau 'heb eu hawdurdodi' a chodwyd tâl ychwanegol ar bob Heddlu. Setlwyd y taliadau hyn yn ganolog gan y Swyddfa Gartref yng nghyfrifon y Llywodraeth. Roedd nodyn yn esbonio'r sefyllfa a'r effaith dybiedig wedi'i gynnwys yn natganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn. |

| Gofyniad ar gyfer adrodd | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| Materion o bwys i orchwylio'r broses adrodd ariannol | Ni adroddwyd unrhyw faterion. |
| Gwendidau perthnasol yn y dulliau rheoli mewnol | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol. |
| Materion sy'n ofynnol yn benodol gan safonau archwilio eraill i'w cyfathrebu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Ni adroddwyd unrhyw faterion. |

## Rwyf yn fodlon y bu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

10 Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi ei seilio ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar:

- ganlyniadau'r gwaith archwilio a wnaethpwyd ar systemau rheoli mewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a adroddwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol;
- canlyniadau'r gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, pan oeddwn o'r farn ei fod yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall, gan gynnwys gan Archwilio Mewnol, yr oeddwn yn ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni fy nghyfrifoldebau.

11 At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau fel y'u nodir yn Atodiad 1. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, a pha mor bwysig yw'r bylchau hynny.

## Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl brosesau cynllunio cadarn ar waith gyda chysylltiadau sydd wedi eu sefydlu'n dda rhwng y cynllunio ariannol a'r cynllunio strategol. Fodd bynnag, gallai'r mesurau perfformiad sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd fod yn fwy cadarn.

12 Canfuom fod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau cynllunio cadarn ar waith gyda chysylltiadau clir rhwng y prosesau ar gyfer pennu amcanion a chynllunio ariannol. Mae amserlen fanwl ar waith ar gyfer cynllunio blynyddol sy'n cynnwys yr holl swyddogion perthnasol. Mae swyddfa'r Heddlu a'r Comisiynydd wedi dangos technegau rheoli prosiect cadarn i sicrhau bod yr amserlen sydd wedi ei phennu yn cael ei chyflawni.

13 Caiff perfformiad gweithredol ei fonitro ar lefelau amrywiol ym mhob rhan o'r Heddlu gan uwch swyddogion, a hefyd gan swyddfa'r Comisiynydd. Mae hyn yn cynnwys perfformiad ariannol o'i gymharu â chyllidebau a chynlluniau arbed arian. Yn ogystal â'r monitro perfformiad mewnol, mae'r Panel Heddlu a Throsedd (y Panel) annibynnol hefyd yn derbyn ac yn trafod adroddiadau perfformiad ac alldro rheolaidd ar amrywiaeth eang o faterion gweithredol a ddaw oddi wrth y Prif Gwnstabl. Mae'r Panel hefyd yn craffu ac yn nodi sylwadau ar bapurau strategaeth a gynhyrchir gan y Comisiynydd, gan gynnwys y diweddariad blynyddol i'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

14 Mae'r Comisiynydd newydd wedi cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer ei Gynllun Heddlu a Throsedd y mae angen ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2017. Rydym wedi adolygu'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyfredol a drafft cynnar o'r cynllun newydd ac wedi nodi nad oedd y mesurau perfformiad a oedd wedi eu cynnwys yn y cynllun hanesyddol yn ei gwneud yn hawdd dangos cyflawniad amcanion penodol bob amser. Rydym wedi darparu adborth ar y mesurau perfformiad hyn i Swyddfa'r Comisiynydd ac mae ef wedi ymrwymo i ystyried y sylwadau hyn wrth greu ei fersiwn derfynol o'i Gynllun Heddlu a Throsedd newydd.

15 Mae systemau rheoli a llywodraethu yr Heddlu a'r Comisiynydd wedi parhau i ddatblygu yn ystod 2015-16. Mae Bwrdd Plismona'r Comisiynydd wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ystyried perfformiad yr Heddlu. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol wedi parhau i adolygu a diwygio'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn unol â'r hyn sy'n briodol.

16 Cyfarfu'r Cydbwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod 2015-16 i ystyried canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol a'n gwaith ni ein hunain, ac mae wedi cynnal ymarfer hunanasesu o'i berfformiad ei hun yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio'n parhau i weithio'n dda gan roi sicrwydd priodol a gwneud argymhellion i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Eleni cynhyrchodd y Cydbwyllgor Archwilio adroddiad blynyddol yn crynhoi ei waith. Mae rheoli risg wedi ei ymwreiddio ym mhob rhan o'r Heddlu a swyddfa'r Comisiynydd a darperir adroddiadau rheoliad i'r cydbwyllgor archwilio.

17 Ni wnaeth ein gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol a datganiadau Llywodraethu Blynyddol 2015-16 nodi unrhyw wendidau sylweddol yn y systemau rheoli, a mân welliannau yn unig a argymhellwyd i'r rheolwyr.

18 Mae Comisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru yn cyfarfod yn rheolaidd yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan i ystyried materion a chydgysylltu ymatebion. Datblygodd y grŵp hwn Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer gwaith Cymru gyfan ar y cyd, sy'n nodi'r trefniadau monitro a chraffu ar gyfer y gwaith ar y cyd hwnnw. Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu'r memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar draws ei holl drefniadau ar y cyd.

19 Mae adolygiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cefnogi fy nghasgliadau ynglŷn â'r trefniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol. Ynghyd â'u hadolygiadau o agweddau penodol ar weithrediadau'r Heddlu, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi hefyd adolygiad cyffredinol o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL). Cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ei asesiad PEEL ar gyfer 2015 ym mis Chwefror 2016, a chyhoeddwyd elfen effeithlonrwydd asesiad PEEL 2016 ym mis Tachwedd 2016. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â methodoleg PEEL a chasgliadau manwl yr asesiad PEEL yn ymwneud â Heddlu Dyfed Powys ar gael ar wefan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.

## Cyflawnodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu cyllidebau refeniw ar gyfer 2015-16, ac maent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i heriau ariannol sylweddol

20 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i ddangos rheolaeth gadarn dros eu cyllideb refeniw ar gyfer 2015-16. £93.3 miliwn oedd y gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn a chyflawnwyd cyllideb wedi ei mantoli. Roedd Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn yr Heddlu yn parhau i fod ar £4.5 miliwn ar 31 Mawrth 2016 ond gostyngodd y cronfeydd wrth gefn eraill o £41 miliwn i £28.4 miliwn fel y cynlluniwyd. Mae hyn yn cynnwys £18.7 miliwn a neilltuwyd i ariannu prosiectau cyfalaf penodol gan gynnwys datblygiad dalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin.

21 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd ar wariant a'r sefyllfa o'i chymharu â'r gyllideb. Mae'r Heddlu wedi amcangyfrif y bydd angen dod o hyd i £16.8 miliwn o ostyngiadau i'r costau rhwng 2016/17 a 2019/20 ac mae cynlluniau manwl ar waith i gyflawni'r arbedion hyn.

## Mae'r Comisiynydd yn cynnal pwyslais clir ar ddiogelwch cymunedol ond mae rhai gwendidau'n parhau o ran rheoli perfformiad

22 Yng Nghynllun Archwilio 2015 i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, nodwyd y byddai ein rhaglen waith ar berfformiad yn canolbwyntio ar adolygu effeithiolrwydd trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Comisiynydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau Diogelwch Cymunedol. Roedd ein hadolygiad ar lefel yr heddlu o ddiogelwch cymunedol yn rhan o astudiaeth genedlaethol, a gynhaliwyd ar lefel Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru), rhanbarthol (ardal y Comisiynwr) a lleol (awdurdod lleol/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol).

23 Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad cenedlaethol ar 18 Hydref 2016 gan ddarparu casgliadau ar waith yr holl bartneriaid sydd ynghlwm â rheoli diogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae'r adroddiad cenedlaethol Diogelwch Cymunedol yng Nghymru ar gael ar ein gwefan.

24 Gwnaethom hefyd gynhyrchu adroddiad penodol ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif gwnstabl yn nodi ein canfyddiadau lleol ar waith partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol, gan ystyried canfyddiadau ehangach o'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth genedlaethol. Yn yr adroddiad lleol hwn daethom i'r casgliad bod **y Comisiynydd yn cynnal pwyslais eglur ar ddiogelwch cymunedol ond bod rhai gwendidau'n parhau o ran rheoli perfformiad**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Comisiynydd yn arwain materion diogelwch cymunedol;
- bod gan y Comisiynydd gynlluniau a strategaethau priodol ar gyfer mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol ond nid yw'r blaenoriaethau wedi eu nodi'n eglur bob tro a gallent fod wedi'u hintegreiddio'n well â chynlluniau partneriaid;
- bod y Comisiynydd yn gweithio'n gymharol dda â phartneriaid allweddol ond gallai wneud mwy i ddangos effaith ei gyfraniad i wella diogelwch cymunedol;
- bod y Comisiynydd yn gwella gwerth am arian wrth gyflawni gwaith diogelwch cymunedol; ac
- Mae angen i'r Comisiynydd wneud mwy i graffu ar berfformiad yn effeithiol a rheoli effaith gwaith diogelwch cymunedol.

25 Rydym yn ymwybodol bod rhai sefydliadau wedi datblygu eu gwaith ar ddiogelwch cymunedol ymhellach ers i'n gwaith maes ni gael ei gwblhau.

## Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi ei gwblhau ar 29 Medi 2016

26 Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon y Comisiynydd a'r Prif gwnstabl wedi ei gwblhau ar 29 Medi 2016.

27 Amcangyfrifais yng Nghynllun Archwilio 2016 y byddai ffi archwilio 2015-16 yn £82,516. Mae'r union ffi archwilio yn unol â'm hamcangyfrif gwreiddiol.

# Atodiad 1

## Meini prawf i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Arddangosyn 2: Meini prawf ar gyfer asesu'r trefniadau

| Trefniadau rheoli perfformiad a rheoli ariannol corfforaethol | Cwestiynau ynglŷn â'r trefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu sianeli cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i nodi amrywiaethau posibl o'u cymharu ag amcanion strategol, safonau a thargedau, er mwyn gweithredu pan fo angen ac adrodd i'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Cydymffurfio â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer sicrhau cydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli ei risgiau busnes sylweddol? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni wrth ddefnyddio adnoddau? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i sicrhau bod ei wariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli a monitro perfformiad o'i gymharu â chyllidebau, cymryd camau unioni pan fo hynny'n briodol, ac adrodd y canlyniadau i'r uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, nodi amrywiaethau posibl o'u cymharu ag amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer gweithredu? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau sydd wedi eu cynllunio i hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 2

## Risgiau archwilio sylweddol

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2016 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2016. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Arddangosyn 3: Risgiau archwilio sylweddol

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniadau |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Gan nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau sylweddol sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol mewn busnes. | Ni nodwyd unrhyw faterion o'n hadolygiad nac wrth brofi cofnodion. Ni chododd unrhyw faterion eraill yn ymwneud ag amcangyfrifon arwyddocaol eraill yn y cyfrifon. |
| Mae angen i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Safonau Adrodd Rhyngwladol (IFRS). Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff:<br>• sicrhau bod pob cyfres o gyfrifon yn cael eu paratoi er mwyn adlewyrchu'n briodol sylwedd y dull o reoli gweithgareddau o ddydd i ddydd yn ogystal â safbwyntiau cyfreithiol; a<br>• Deall y gofynion IFRS yn llwyr, bod yn ymwybodol o ofynion newydd a sicrhau y nodir risgiau a phroblemau yn briodol ac y rhoddir sylw iddynt. | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff ac yn eu cefnogi i gytuno ar y modd mwyaf priodol o gyflwyno y ddwy gyfres o ddatganiadau ariannol a datganiadau'r grŵp.<br>Byddwn hefyd yn cytuno ar welliannau i'r fethodoleg a'r gwaith papur i gefnogi'r datganiadau ariannol, pan fo hynny'n angenrheidiol. | Gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r nodiadau sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon o ganlyniad i'r gwaith hwn ac mae'r datgeliadau yn unol â gofynion cyfrifyddu. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniadau |
|---|---|---|
| Bydd etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016 a allai effeithio ar y broses o gynhyrchu ac archwilio dogfennau allweddol yn ystod y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn cydgysylltu gyda'r rheolwyr i nodi'r agweddau ar y broses o gynhyrchu cyfrifon a allai gael eu heffeithio gan yr etholiadau hyn sydd ar fin cael eu cynnal, a byddwn yn gweithio i sicrhau cyn lleied â phosibl o amharu. | Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys. |
| Mae gwaith yn cael ei wneud i nodi gweithrediadau a reolir ar y cyd y mae'n ofynnol eu datgelu o dan y Cod a'r rheoliadau archwilio. Bydd y gwaith hwn yn gofyn am gydweithrediad Heddluoedd eraill yng Nghymru i bennu canlyniadau y cytunwyd arnynt a chysondeb ledled Cymru. | Bydd fy nhîm archwilio yn cydgysylltu â'r rheolwyr ac yn cynnig cymorth yn ystod y gwaith hwn pan fo angen, i sicrhau bod yr holl weithrediadau a reolir ar y cyd yn cael eu nodi a'u hadrodd yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Gwnaethpwyd addasiadau priodol i ddatganiadau ariannol 2015-16 i adlewyrchu'r gyfran a gyfrifwyd o fudd o weithrediadau ar y cyd. Mae angen gwneud rhagor o waith gyda Heddluoedd eraill Cymru i ddarparu'r wybodaeth hon yn gynharach ar gyfer 2016-17. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniadau |
|---|---|---|
| Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol, mae risgiau y gallai'r trefniadau llywodraethu fod yn wannach, er enghraifft o ganlyniad i staff allweddol yn gadael y sefydliad. Mae'n bwysig felly, bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn adrodd yn eu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol, sut y maent yn lliniaru'r risg hwn, er enghraifft trwy sicrhau presenoldeb:<br>• rheolaethau ariannol mewnol cadarn fel gorchmynion sefydlog cynhwysfawr a rheoliadau ariannol, rheolaeth gyllidebol gref ac Archwilio Mewnol effeithiol;<br>• gweithredu safonau cydnabyddedig o ymddygiad ariannol;<br>• trefniadau i sicrhau nad yw'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cynnal trafodiadau heblaw pan fo darpariaeth gyfreithiol benodol iddynt wneud hynny; a<br>• bod gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu'n dda ac a ddeallir yn dda ar waith i atal a datgelu twyll a llygredd. | Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal adolygiad manwl o'r trefniadau diwygiedig ar gyfer cynhyrchu'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol.<br>Byddwn hefyd yn ystyried gwaith a wnaed gan eraill gan gynnwys Archwilio Mewnol ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. | Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys. |
| Yn ystod 2015-16 negododd y Comisiynydd setliad i brynu'r cyfnod a oedd yn weddill o'r contract PFI ar Orsaf heddlu Rhydaman. Mae risg na fydd yr achos hwn o gaffael ased yn cael ei gyfrifo'n gywir yn natganiadau ariannol 2015-16. | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio gyda'r adran gyllid i gytuno ar yr holl gofnodion cyfrifyddu perthnasol ar gyfer y trafodiad hwn i sicrhau bod datganiadau ariannol 2015-16 yn gywir yn hyn o beth. | Cytunwyd ar gofnodion cyfrifyddu priodol gyda'r adran gyllid i gofnodi'r trafodiad hwn a'i brosesu'n gywir yn natganiadau ariannol 2015-16. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru